

Cyngor Cymuned Llanelian (301)

Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 3, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Thomas Jones, Hefina Williams, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Ian Evans, Cyng. Aled Jones.

Ymddiheuriadau: Gordon Hayes, Carol Whitaker, Glenys Jones, Helen Hughes

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

Yn absennol: David Gerrard, Cyng. Richard Jones, Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Dim

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio John Griffiths

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Penodi Is-gadeirydd

Cynigwyd bod yr eitem yn cael ei ohirio nes y cyfarfod nesaf pan obeithir bydd mwy o aelodau yn bresennol. Nododd Hefina Williams ei siom nad oedd unrhyw un wedi gwirfoddoli a chymryd y cyfle i ddysgu a datblygu fel aelod o'r cyngor.

4.2 Cadarnhau aelodaeth is-bwyllgorau

Cytuno gohirio'r eitem nes bod is-gadeirydd wedi ei benodi/phenodi

4.3 Cadarnhau cynrychiolaeth ar bwyllgorau allanol

Cytuno gohirio'r eitem nes bod is-gadeirydd wedi ei benodi/phenodi

4.4 Datblygiad Dublin

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu â Grŵp Cynefin ond nad oedd ymateb hyd yma. Nodwyd bod y datblygiad yn symud yn ei flaen yn gyflym iawn, a bod y safle yn cael ei gadw'n daclus iawn gan yr adeiladwyr. Nodwyd byddai o bosib angen gofyn i GSYM am linellau melyn ger Maes Llwyfo os daw parcio yn broblem unwaith bydd y datblygiad wedi ei gwblhau.

4.5 Giatiau mynwentydd

Mae disgwyl rhestr o gontractwyr awdurdodedig gan CADW ar gyfer cael prisiau am giât newydd i Laneilian. Cafwyd wybod gan yr Henaduriaeth bod giat newydd wedi ei archebu ar gyfer Bosra ac y bydd yn cael ei osod maes o law.

4.6 Llwybrau a'r Priffyrdd

Nodwyd bod llwybr newydd yn cael ei osod ger y Bedol ar hyn o bryd, a bod a manhole hefyd i weld yn cael sylw. Nodwyd bod peth gwaith llenwi tyllau yn y ffyrdd wedi ei gwblhau dros y dyddiau diwethaf.

4.7 Mynediad i'r Eglwys

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi gwirio'r gofrestra tir ac nad oedd y tir dan sylw wedi ei gofrestru. Nodwyd mai prif fynedfa'r Eglwys yw'r giat dan sylw ac nid mynedfa'r Cyngor i'r Fynwent; gofynnwyd pam fod yr Eglwys wedi codi'r mater gyda'r Cyngor Cymuned. Cytuno ysgrifennu at berchennog y tŷ, yr Eglwys a chysylltu ag Un Llais Cymru am gyngor pellach.

4.8 Polisi Cynllunio Atodol

Nododd Dafydd Griffiths ei fod wedi edrych ar y ddogfen ymgynghori ac fe gyflwynodd ei

sylwadau. Mae'n debyg bod y ddogfen yn ystyried cymysgedd o wahanol fathau o dai mewn datblygiad newydd a'r angen amdanynt yn y gymuned. Cytuno cadw golwg am gais cynllunio safle'r Bedol dros gyfnod yr haf, nid oedd ddiweddiariad hyd yma yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod y ddogfen yn ymwneud a thwristiaeth a charafanau yn ddryslyd. Cytuno byddai Dafydd Griffiths yn cyflwyno ei sylwadau ar ran y Cyngor.

5 **Caeau Chwarae**

Daw adroddiadau diweddaraf Medwyn Owen gan gadarnhau bod yr offer wedi eu paentio yn Lôn Tyddyn Waen erbyn hyn a'r fainc wedi ei drin. Nodwyd bod angen arwyddion dim cwn yn y caeau chwarae. Cytuno cael arwyddion tebyg i'r mynwentydd hefyd.

6 **Llithrfa**

Cafwyd wybod gan y clerc bod dau goriad wedi eu prynu mewn camgymeriad wrth i bobl ddefnyddio'r ffurflen anghywir. Mae taliad felly wedi ei wneud i Gyngor Tref Amlwch am ddau goriad Porth Llechog.

Nododd John Griffiths bryder am gyflymder jet-skis yn y bae, gan nodi bod nifer wedi dwyn ei sylw at y mater. Nododd John Griffiths ei fod yn bwriadu torri'r glaswellt ger y llithrfa yn fuan. Cytuno cysylltu â Llys Dulas i ofyn a fyddent yn gallu torri'r gwair o amgylch yr arwyddion a'r fainc gan mai hwy sydd berchen ar y tir.

7 **Cynllunio**

7.1 **Ceisiadau** – ni fu ceisiadau i'w cyflwyno

7.2 **Penderfyniadau** – nodwyd penderfyniadau CSYM fel a ganlyn –

Tremarfor (24C165D) - Caniatâd
Plot 2 Cerrig Man (24C268H/DA) - Caniatâd
Plot 1 Cerrig Man (24C268J/DA) - Caniatâd
Cae Gron (24C225D) – Gwrthod
Eglwys Eilian (24C189C/LB) – Caniatad
Bryn (24C349) – Gwrthod

8 **Materion Ariannol**

8.1 **Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£270.00 Anglesey Computer Solutions (gwefan hyd 2020)
£250.00 Clwb Ieuenctid Penysarn (Milwr Tawel)
£265.69 Costau Clerc Ebrill – Mehefin
£285.87 Cyflog Clerc
£245.00 M Owen (paentio offer chwarae)
£87.00 M Owen (arolygon caeau chwarae)
£192.00 IG Jones (gwasanaethau 2017/18)

8.2 **Ceisiadau am Arian**

Nid oedd ceisiadau o'r newydd i'w ystyried.

8.3 **Adroddiad Chwarterol**

Dosbarthwyd copi o'r adroddiad i'r rheini oedd yn bresennol. Cytuno symud gwariant am ddau fwrdd picnic o'r cae chwarae i bennawd cynnal a chadw.

8.4 **Archwiliad**

Nodwyd bod angen edrych ar ddatblygu asesiad risg mwy manwl o fewn y flwyddyn ariannol. Cytuno byddai'r is-bwyllgor cyllid a pholisi yn cwrdd ym mis Awst i drin a thrafod. Dosbarthwyd dogfen drafft i'r aelodau hynny

9 **Cronfa Tŷ Moel Isaf**

Dosbarthwyd copi o gofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd Mehefin 19. Nodwyd nad oedd yr ewyllys yn son am ardal Rhosybol ac Amlwch fel awgrymai paragraff 4 point 4.

Cytuno bydd angen cyfansoddiad penodol ar gyfer pwyllgor y fynwent yn amlinellu eu pwerau a'u hawliau fel ymddiriedolwyr yr arian sydd wedi ei bennu tuag at gynnal beddi'r teulu.

Bydd hefyd angen pwyllgor i reoli gweddill arian TMI yn annibynnol i faterion dydd i ddydd y Cyngor. Byddai posib gwahodd arbenigedd fel bod angen i'r cyfarfodydd rheini.

10 **Iechyd a Diogelwch**

Cytuno trefnu arolwg diogelwch Mynwent Llanelian yn cael ei gynnal cyn gynted â phosib gan fod pum mlynedd ers yr arolwg diwethaf.

11 **Wylfa Newydd**

Nodwyd bod y cais DCO wedi ei dderbyn gan yr arolygaeth erbyn hyn a bod y broses yn symud yn ei flaen. Mae Partneriaeth Cynghorau Gogledd Môn yn cwrdd nos Fercher 9/7/2018 i drafod gyda'r arbennigwyr Wood pa gamau sydd angen eu cymryd nesaf. Nodwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd am wahanol drwyddedau fydd eu hangen ar Horizon i weithredu'r pwerdy newydd.

12 **Gohebiaeth**

12.1 Daw agenda Gweithdy Cynllunio Lle sydd i'w gynnal nos Iau yn Siambr y Cyngor, Llangefni.

12.2 Cylchlythyr diweddaraf y Grid Cenedlaethol

12.3 Cylchlythyr diweddaraf Rhun ap Iorwerth

13 **Unrhyw Fater Arall**

13.1 Gardd Top Rallt - nodwyd bod yr ardal yn flêr. Cytuno cysylltu eto gyda Richard Edwards i gwblhau'r gwaith cyn gynted â phosib, mae eisoes wedi rhoi chwynladdwr ger yr ymylon.

13.2 Rhwystrau/Giat ger llwybr Lôn Tyddyn Waen hyd y ffordd osgoi - Nodwyd ei fod yn beryglus iawn dod i'r lon fawr o'r llwybrau pob ochr gan nad oes giatau na rhwystrau i rybuddio cerddwyr na cherbydau o ble mae'r llwybr yn croesi'r lon fawr. Cyng. Aled Jones i wneud ymholiadau.

13.3 Cerrig Man - nodwyd bod yr hen wal rhwng Dafarn Drip a Tyn Ffordd wedi disgyn a bod peryg iddo ddisgyn i'r lon fawr. Cyng. Aled Jones i wneud ymholiadau.

13.4 Scam - Nododd Cyng. Aled Jones bod cwmni o Blackpool yn targedu pobl hyn a bregus yr ynys yn cynnig trin eu ffenestri a'u drysau. Mae'n debyg mai twill yw'r cynllun yma ac fe ofynnwyd i bawb fod yn wyladwrus o'u teuluoedd, ffrindiau a chymdogion.

14 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Medi 11, 2018 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30.

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd

CET07/2018